WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 1 Chwefror 2013 |
| Ein cyf: | HVT/1807/hcj |
| Tudalen: | 1 o 5 |

Mr Marc Wyn Jones
Clerc Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mr Wyn Jones

**YMCHWILIAD I ADDASIADAU I GARTREFI**

Cefais lythyr ymgynghori'r Pwyllgor yn ddiweddar ar gyfer ei ymchwiliad i *Addasiadau i Gartrefi*. Gan ddefnyddio tystiolaeth o rywfaint o'n gwaith archwilio diweddar ar draws llywodraeth leol, rwyf wedi atodi i'r llythyr hwn ymateb byr i'r ymgynghoriad.

Gobeithio y bydd hwn o gymorth i'r Pwyllgor. Byddai staff Swyddfa Archwilio Cymru yn fwy na pharod i drafod ein tystiolaeth archwilio am gyflawni addasiadau i gartrefi yng Nghymru â chi yn fanylach pe bai hynny o gymorth.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510**    E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

**Atodiad: Ymateb Swyddfa Archwilio Cymru i ymgynghoriad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar *Addasiadau i Gartrefi***

1. Mae gwasanaethau addasu cartrefi yn rhan bwysig o system ehangach sy'n ceisio helpu pobl ag anableddau i fyw'n annibynnol. Mae elfennau eraill o'r system ehangach honno yn cynnwys y gwasanaethau ailalluogi a'r system ariannu cefnogi pobl.

2. Er bod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cyfeirio'n benodol at Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, fel y cydnabu adroddiad 2009 gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, dim ond un o nifer o ffyrdd o ariannu addasiadau i gartrefi yw'r rhain. Ymhlith y ffynonellau ariannu amgen mae gwaith gofal a thrwsio, addasiadau i eiddo y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt a ariennir drwy'r cyfrif refeniw tai, a'r Grantiau Addasiadau Ffisegol i denantiaid mewn cartrefi sy'n eiddo i gymdeithasau tai.

3. Mae ein gwaith archwilio perfformiad diweddar ar draws llywodraeth leol wedi cynnwys dadansoddi perfformiad rhai cynghorau o ran darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae staff archwilio perfformiad wedi bod yn rhoi sylw penodol hefyd yn ddiweddar i ddigonolrwydd cyffredinol y 'Dangosydd Strategol Cenedlaethol' a ddefnyddir i fesur y broses o ddarparu'r Grantiau hyn gan gynghorau lleol ledled Cymru. Nid yw'r gwaith hwn wedi'i orffen yn derfynol ac ni chyflwynwyd adroddiad arno eto.

4. Wrth ddehongli'r data sydd ar gael ar yr amserlenni ar gyfer darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, mae'n bwysig cydnabod y darperir y rhain yn aml i bobl sy'n agored iawn i niwed a phobl anabl iawn y gall eu hanghenion a'u gofynion newid yn ystod oes cais am Grant o'r fath. Gall eu penderfyniad i fynd ar drywydd addasiad yn y pen draw fod yn eithaf anodd a gall gymryd amser a all ychwanegu at yr amser a gymerir i wneud y gwaith. Yn ein profiad ni, mae enghreifftiau lle bydd cynghorau'n cau achosion tra byddant yn aros i ymgeisydd gytuno i fwrw ymlaen â'r gwaith addasu, dim ond i ddechrau'r broses gyfan eto pan fyddant yn penderfynu bwrw ati.

5. At hyn, gall gwaith addasu cymhleth yn anochel gymryd mwy o amser. Mae risg y gallai rhoi gormod o bwyslais ar geisio perfformiad gwell yn erbyn y dangosydd perfformiad cenedlaethol, ddarparu cymhelliant croes i gynghorau flaenoriaethu adnoddau tuag at waith llai cymhleth ar draul y rheini sydd â'r angen mwyaf. Fodd bynnag, nid yw'r data perfformiad a nodwyd yn cynnwys gwaith o ran Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gwerth llai na £5,000 ychwaith. I rai cynghorau, gall gwaith o'r fath gynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â'r Grantiau hyn a gall yr addasiadau a ddarperir gael effaith sylweddol o hyd o ran cynnal annibyniaeth derbynyddion.

6. Efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried yn fanylach y cwmpas i fireinio'r fframwaith rheoli perfformiad ymhellach i wahaniaethu rhwng categorïau gwahanol gwaith Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (er enghraifft yn ôl math neu werth). Gallai'r Pwyllgor hefyd ystyried cyfleoedd i werthuso'n well werth am arian cyffredinol buddsoddiad y cynghorau mewn Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl drwy ystyried mesurau eraill sy'n ystyried yr effaith ar y rheini sy'n cael budd o'r gwaith ac ansawdd a chost gyffredinol y gwaith. Fel y mae, er bod

y fframwaith rheoli perfformiad yn gwahaniaethu bellach rhwng y Grantiau a ddarperir i bobl ifanc ac oedolion, nid ymddengys fod y gwaith mireinio a awgrymwyd gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal o ran trefniadau'r dangosyddion perfformiad wedi cael ei gyflawni'n llwyr.

7. Mae mesur perfformiad y Grantiau fel Dangosydd Strategol Cenedlaethol wed bod yn bwysig i helpu i godi proffil gwaith y Grantiau a'u cyfraniad at y gwaith o gefnogi byw'n annibynnol. Fodd bynnag, mae'r mesur hwn yn parhau i ganolbwyntio ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl a ddarperir i berchen-feddianwyr a thenantiaid landlordiaid sector preifat. Nid yw'n rhoi cipolwg o berfformiad cynghorau wrth gyflawni gwaith addasu ar draws eu stoc tai eu hunain, lle bo gan gynghorau eu stoc o hyd. Yn yr un modd, mae'n eithrio gwaith Grant Addasiadau Ffisegol a gyflawnir ar gartrefi sy'n eiddo i gymdeithasau tai sydd, o ganlyniad yn rhannol i drosglwyddo stoc awdurdodau lleol, wedi bod yn cynyddu o ran gwerth. Er bod cymdeithasau tai yn rhoi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru gan nodi faint o waith grant addasiadau a gyflawnir, nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw system ar waith i werthuso perfformiad cymdeithasau tai yn fwy ffurfiol o ran cyflawni'r gwaith hwn ac, yn wahanol i gynghorau, nid yw'n ofynnol i gymdeithasau tai adrodd yn gyhoeddus ar eu perfformiad. Yn yr un modd, nid ydym yn ymwybodol bod gan Lywodraeth Cymru drefniadau ar waith i fonitro'n ffurfiol lefel neu berfformiad gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Gofal a Thrwsio.

8. Yn fwy cyffredinol, gall yr amrywiadau sylweddol a welwn o hyd yn yr amser a gymerir i ddarparu cymhorthion a chyflawni addasiadau a ariennir gan Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ledled Cymru adlewyrchu, o leiaf yn rhannol, ddigonolrwydd trefniadau rheoli ategol y cynghorau. Er enghraifft, byddem yn sylwi ar y canlynol:

    a. Mae tuedd barhaus i rai cynghorau fabwysiadu dulliau traddodiadol o gaffael drwy gontractau un tendr yn hytrach na defnyddio dulliau mwy modern fel trefniadau llunio partneriaeth/fframwaith a/neu swmp-gontractio.

    b. Mae systemau achredu ffurfiol ar gyfer contractio gwaith Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn aml yn ddiffygiol o ran eu ffocws ar:

        i. Safonau gofal cwsmeriaid, fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus a rheoli sŵn.

        ii. Fetio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW, a threfniadau yswiriant.

        iii. Hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da.

        iv. Defnyddio cynlluniau gwarant.

        v. Gofyn am eirdaon.

c. Mae i ba raddau y defnyddir dulliau integredig i asesu a chyflawni gwaith ac effeithiolrwydd y gwaith hwnnw (rhwng staff therapi galwedigaethol a staff grantiau) yn parhau i fod yn amrywiol. Yn ein profiad ni, prin yw'r cynghorau sydd â system o'r dechrau i'r diwedd sy'n dwyn yr holl randdeiliaid ynghyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn effeithiol. Mae tuedd o hyd i elfennau unigol o'r broses Grantiau ddilyn y naill ar ôl y llall mewn llinell, yn hytrach na bod cynghorau yn ystyried cyfleoedd i symleiddio, er enghraifft drwy weithredu rhannau gwahanol o'r broses ar y cyd.

ch. Am fod y Grantiau hyn yn seiliedig ar brawf modd[1], gall y broses o wneud cais a chymeradwyo'r cais hwnnw fod yn gymhleth ac yn hir yn aml. Wedi dweud hynny, mae'n amlwg yn bwysig i awdurdodau lleol gynnal rheolaethau priodol i ddiogelu rhag twyll. Gall y cyfleoedd i gynghorau gyflymu'r broses gynnwys: defnyddio Cofrestrfa Tir EM i ganfod gwybodaeth a theitlau eiddo; defnyddio asiantaethau credyd ar-lein i wirio data ariannol ar gleientiaid; didoli a chyflymu Grantiau yn effeithiol ar y pwynt cyswllt cyntaf; a chynnal asesiad ariannol yr ymgeisydd ar y pwynt y caiff yr asesiad am y Grant ei gwblhau.

d. Caiff y broses atgyfeirio, er mwyn galluogi cleientiaid i gael eu hasesu'n brydlon ac yn gyflym, ei chefnogi gan systemau rheoli gwybodaeth gwael nad ydynt yn gweithredu yn unol ag egwyddorion tro cyntaf cywir. O ganlyniad, ni chaiff yr holl wybodaeth sy'n ofynnol i asesu cleient ei chasglu o reidrwydd ar y pwynt cyswllt cyntaf. Gall hyn arwain at oedi sylweddol gan fod cynghorau'n tueddu i roi'r pwyslais ar y cleient i ddatrys y bwlch mewn gwybodaeth yn hytrach na cheisio rheoli'r baich tystiolaeth eu hunain.

9. Rydym wedi gweld tystiolaeth o rai cynghorau yn cynnal eu gwariant a gyllidebwyd ar Grantiau yn y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf cyfyngiadau ariannol ehangach. Fodd bynnag, nid yw buddsoddiad presennol bob amser yn ddigonol i ddarparu'r holl Grantiau gorfodol sy'n ofynnol ac yn aml bydd yn rhaid i ymgeiswyr aros cryn dipyn o amser i sicrhau grant. Pe bai'r Pwyllgor yn gofyn am unrhyw wybodaeth ddiweddar am gyllidebau/gwariant cynghorau ar y Grantiau hyn, mae'n werth bod yn ymwybodol bod gwahaniaethau o ran sut y telir am y gwasanaethau hyn yn lleol. Yn ein profiad ni, mae rhai cynghorau'n ceisio sicrhau incwm ffioedd o'r Grantiau o dan gytundeb asiantaeth tra bod eraill yn cael eu hariannu o refeniw craidd ac yn gwario 100 y cant o'r gyllideb Grantiau ar waith addasu. Gall fod y Pwyllgor am ystyried hefyd a yw cynghorau a chymdeithasau tai yn manteisio i'r eithaf ar dai presennol sydd wedi'u haddasu i osgoi gwario mwy o arian yn ddiangen ar addasiadau i'w stoc tai eu hunain.

---

[1] Yn achos pobl ifanc (dan 19 oed) nid oes unrhyw brofion modd. Fodd bynnag, yn ein profiad nid yw hyn o reidrwydd yn arwain at wahaniaethau amlwg yn yr amseroedd darparu cyfartalog ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

10. Yn olaf, gall fod yn ddiddorol i'r Pwyllgor nodi canfyddiadau darn o waith a gomisiynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru o 'Ganolfan Ymchwil Menter Ddarbodus' Prifysgol Caerdydd yn 2009-10. Ystyriodd yr adroddiad hwnnw y broses o gymhwyso meddwl darbodus ac ar sail systemau ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru ac roedd yn cynnwys astudiaeth achos am adolygiad meddwl systemau o wasanaeth Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot[2]. Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2012, nodwyd bod Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn un o nifer o feysydd y gallai'r Cyngor ddangos amseroedd darparu gwasanaethau gwell ac ansawdd gwasanaethau gwell. Roedd hynny er gwaethaf y ffaith i'r Cyngor berfformio'n wael o gymharu â chynghorau eraill yn erbyn y dangosydd strategol cenedlaethol am yr amser a gymerodd i ddarparu'r Grantiau. Mae'r Cyngor wedi datblygu mesurau perfformiad eraill, ar wahân i'r amseroedd darparu, er mwyn helpu i fonitro perfformiad gwasanaethau.

[2] 'Canolfan Ymchwil Menter Ddarbodus', Lean and Systems Thinking in the Public Sector in Wales, Ionawr 2010, http://www.wao.gov.uk/assets/englishdocuments/Systems_Thinking_Report_eng.pdf